UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Cyngor Proffesiynol

# Gyrru ar Fusnes

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

# Gyrru ar Fusnes

**Mae nifer o awdurdodau lleol wedi diwygio'u polisïau a dogfennau sy'n cynnig arweiniad am yrru at bwrpas gwaith.**

Er bod 'hen' fersiwn y polisïau hyn yn aml yn cyfeirio at 'ddefnyddiwr car' a 'swydd ddynodedig' mae'r dogfennau diwygiedig yn nodi bod yr un disgwyliadau o ran dogfennau'n berthnasol i bob gweithiwr i'r Cyngor Sir.

Mae rhai awdurdodau lleol nawr yn mynnu bod gan athrawon yswiriant 'gyrru ar fusnes' a'u bod yn rhoi copi o ddogfennau perthnasol i'r cyflogwr (ysgol).

Mewn ymateb i'r datblygiad hwn mae UCAC wedi:

a) derbyn barn gyfreithiol ar y gofynion newydd

b) holi cwmnïau yswiriant am eu dehongliad o deithio i fan gwaith

c) cysylltu â'r **Association of British Insurers** (ABI) i dderbyn eu sylwadau

d) cyfarfod ag uwch swyddogion amryw o awdurdodau lleol

Ar sail y wybodaeth a dderbyniwyd, dyma ateb rhai o'r cwestiynau mae aelodau'n eu codi.

### 1. Pam mae angen hyn?

Mae'r gofyn hwn yn deillio o bolisïau a phrosesau Rheoli Risg yr awdurdodau lleol. Mae'n cael ei ystyried yn fater o 'warchod iechyd, diogelwch a lles gweithwyr' o dan Ddeddf Diogelu yn y Gweithle 1974 a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999.

Yn y bôn mae'r Awdurdod yn diogelu ei hun rhag unrhyw gyhuddiad neu gais am iawndal a allai ddeillio o ddamwain.

Mae mwy a mwy o ddisgwyl ar adrannau addysg yr awdurdodau lleol i fabwysiadu canllawiau a rheolau corfforaethol (h.y. rhai cyffredin i'r holl adrannau eraill o fewn y sir) ac mae hyn yn enghraifft o hynny.

### Beth a olygir wrth deithio ar fusnes y Cyngor?

**Nid** yw teithio i, ac o, fan gwaith arferol yn yrru ar fusnes y Cyngor.

Mae ymgymryd ag **unrhyw daith arall** er mwyn cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau swydd, e.e. mynd i gyfarfod/cwrs, cludo disgybl i unrhyw le, yn cynnwys mynd i'r ysbyty mewn argyfwng, yn cael ei ystyried yn deithio ar fusnes.

## 2. Oes rhaid i mi gael yswiriant defnydd busnes?

Nid yw'r gallu i yrru car yn amod o gael swydd dysgu ac nid oes rhaid i athro/athrawes ddefnyddio car personol at ddibenion gwaith heblaw bod y cytundeb cyflogaeth yn dweud hynny, e.e. swyddi athrawon teithiol neu'r rhai sy'n cael eu penodi i weithio mewn mwy nag un ysgol.

Os gallwch osgoi defnyddio eich car at ddibenion gwaith yna nid oes rhaid i chi gael yr yswiriant ychwanegol na dangos y dogfennau. Fel y nodir uchod, **nid yw teithio i, ac o, fan gwaith arferol yn 'yrru ar fusnes y Cyngor'.**

## 3. Siarad gyda'r cwmni/brocer yswiriant

Mae'n allweddol eich bod yn siarad gyda'ch cwmni neu frocer yswiriant er mwyn sicrhau bod gennych yr yswiriant mwyaf addas ar gyfer eich anghenion chi.

Y tri math mwyaf arferol yw 'cymdeithasol, domestig a phleser', 'cymdeithasol, domestig, pleser a chymudo' (teithio i'r gwaith ac adref o'r gwaith) a 'cymdeithasol, domestig a phleser gan gynnwys defnydd sy'n gysylltiedig â gwaith'.

## 4. Faint mae'n mynd i gostio a pham nad ydy'r awdurdod lleol yn talu?

O ran cyfraith cyflogaeth, nid oes rhaid i gyflogwr dalu am yswiriant aelod o staff am ddefnyddio car personol at bwrpas gwaith oni bai fod y cytundeb cyflogaeth neu bolisi treuliau yn dweud hynny.

Mae rhai athrawon wedi llwyddo i addasu'r yswiriant i gynnwys 'defnydd busnes' heb fawr ddim newid yng nghost eu hyswiriant. Deallwn, fodd bynnag, bod rhai aelodau wedi gweld cynnydd sylweddol yn eu premiwm o ychwanegu 'dibenion busnes' at yr yswiriant.

Awgrymwyd gan yr **Association of British Insurers** bod aelodau yn ei gwneud yn gwbl glir i'w cwmni yswiriant cyn lleied o deithio 'busnes' sy'n debygol o ddigwydd mewn gwirionedd wrth negydu telerau a gallai hyn leihau'r gost yn sylweddol.

Os oes aelodau yn cael trafferth cael yswiriant busnes neu fod cynnydd sylweddol yn y premiwm, gadewch i'r awdurdod wybod.

Awgrymir eich bod yn rhannu'r wybodaeth yma gydag UCAC hefyd fel bod gennym dystiolaeth o'r anawsterau neu golled ariannol mae hyn wedi achosi. Byddai cael gwybod am enghreifftiau o gwmnïau sy'n cynnig telerau rhesymol yn fuddiol hefyd.

### 5. Mae gen i bwyntiau/wybodaeth bersonol ar y dogfennau a dydw i ddim eisiau i'r ysgol eu gweld

Mae gofynion diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel.

Gallwch wneud copi o'ch dogfennau a rhoi llinellau breision du drwy unrhyw wybodaeth sensitif sy'n amherthnasol i'r broses, megis manylion pwyntiau neu nifer y blynyddoedd nad ydych wedi hawlio (*no claim),* cyn dangos y dogfennau. Os yw'r ysgol/awdurdod yn dweud nad yw hyn yn dderbyniol, cysylltwch gydag UCAC i drafod y mater ymhellach.

### 6. Beth ydy'r sefyllfa os ydw i'n mynd i'r gwaith yn y bore ac oddi yno i gyfarfod yn rhywle arall yn y prynhawn?

Mae'r ail daith yn daith ar fusnes yr awdurdod lleol; mae'r **Association of British Insurers** yn gadarn eu barn am hynny.

Os caiff unigolyn ddamwain wrth yrru car tra ar 'fusnes yr awdurdod lleol' mae yna bosibilrwydd **y byddai'r yswiriant yn annilys** heb fod 'defnydd busnes' ar yr yswiriant.

Os yw trefnydd eich yswiriant yn dweud bod y ddarpariaeth sydd gennych yn ddigonol, a chithau'n amheus o hynny, mynnwch gael hynny ar ddu a gwyn.

**I gael cyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:**

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, mererid@ucac.cymru
- Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, jen@ucac.cymru
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru
- Roger Vaughan, Swyddog Maes y Gogledd, roger@ucac.cymru
- Ywain Myfyr, Swyddog Maes, ywain@ucac.cymru

**Yn ogystal, mae modd cysylltu ag:**

- Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol, ioan@ucac.cymru
- Iona Davies, Swyddog Polisi, iona@ucac.cymru

**Diweddarwyd: Tachwedd 2023**

**UCAC**
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru